



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Ymweld ag ysbytai yn ystod y coronafeirws: canllawiau

Sut y gall y GIG helpu pobl i ymweld ag ysbytai mewn modd diogel sydd wedi'i drefnu yn ystod pandemig y coronafeirws.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Tachwedd 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 18 Mehefin 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Ymweld â phwrpas

Canllawiau

Mewn ardaloedd a gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID-19

Achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau ac ardaloedd heintus posibl
(ardaloedd asesu)

Amgylchiadau eithriadol

Cytuno ar ymweliadau

Mynd gyda chleifion i apwyntiadau gofal iechyd wedi'u trefnu

Mynd gyda chleifion i apwyntiadau gofal iechyd sydd heb eu trefnu

Atodiad 1: Ystyriaethau ar gyfer ymweld â lleoliadau gofal iechyd heb
COVID19

Atodiad 2: Fframwaith i gynorthwyo Byrddau Iechyd y GIG i asesu
mynediad i bartneriaid, ymwelwyr a phobl eraill sy'n rhoi cymorth i
fenywod beichiog yng ngwasanaethau mamolaeth Cymru yn ystod
pandemig COVID

Atodiad 3: Ystyriaethau ar gyfer ymweld â hosbisau nad ydynt yn leoliadau
COVID-19

Atodiad 4: Egwyddorion i sefydliadau eu hystyried o ran ymweld ag
ysbytai

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf
diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn
ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ymweld â phwrpas

Mae'r **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020** fel y'u diwygiwyd, yn nodi nifer yr unigolion sydd â'r hawl i ymgynnull mewn safleoedd sy'n cael eu rheoleiddio. Mae'r diffiniad o safleoedd o'r fath yn cynnwys ysbytai a hosbisau.

Nid yw'r canllawiau hyn yn newid y Rheoliadau hynny ond maent yn rhoi cyngor yng nghyd-destun yr hyn a ystyrir yn briodol o ran nifer yr ymwelwyr er mwyn cynnal mesurau atal a rheoli heintiau mewn ysbytai a hosbisau yn ystod y pandemig.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau ymweld GIG Cymru a gyhoeddwyd ar 25 Mawrth, 20 Ebrill, 20 Gorffennaf a 30 Tachwedd.

Dyma grynodedb o'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i ganllawiau 30 Tachwedd:

- Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 wedi'u dirymu ac wedi cael eu disodli gan Rheoliadau Rhif 5.
- Ychwanegwyd cyfeiriad at Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar y Synhwyrau.
- Hyd at ddau o warcheidwaid / rhieni, neu ofalwyr wrth ochr y gwely ar y tro ar gyfer cleifion mewnol pediatrig a babanod newydd-anedig, ar sail penderfyniad lleol, ac yn dilyn asesiad risg gan gynnwys y gallu i gadw **pellter cymdeithasol**.
- Dolen at ganllawiau **aelwyddydd estynedig** wedi'i diweddarau.
- Profion Dyfais Llif Unffordd mewn hosbisau wedi'i hychwanegu at Atodiad 3.
- Egwyddorion sefydliadau eu hystyried o ran ymweld ag ysbytai wedi'u hychwanegu fel Atodiad 4.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Crynodeb

- Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch cleifion/defnyddwyr gwasanaeth a staff, ein blaenoriaeth gyntaf yw atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau gofal iechyd.
- Er mwyn cydymffurfio â'r mesur cadw pellter cymdeithasol/corfforol 2 fetr, mae'n dal yn angenrheidiol cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr.
- Dylid annog a chefnogi ymweliadau ar-lein lle bo hynny'n bosibl.
- Mae angen cytuno ar ymweliadau wyneb yn wyneb ymlaen llaw a gellir cynnig ymweliadau awyr agored os yw hynny'n briodol.
- Dylai ymweliadau fod â phwrpas clir a chytundeb ar gyfer ymweld ar sail lles gorau'r claf/defnyddiwr gwasanaeth neu les yr ymwelydd.

Canllawiau

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull hyblyg o ymweld sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, mae Cymru yn dal mewn cyfnod lle mae COVID-19 yn dal i gael ei drosglwyddo yn y gymuned, a'n blaenoriaeth gyntaf yw atal a rheoli heintiau yn ein lleoliadau gofal iechyd. Pwrpas hyn yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles cleifion/defnyddwyr gwasanaeth, staff ac ymwelwyr eu hunain.

Mae **canllawiau Llywodraeth Cymru**

ar hyn o bryd yn datgan bod angen cynnal pellter cymdeithasol/corfforol 2 fetr fel un o'r prif fesurau i helpu i atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo. Cyn belled ag y bo modd, mae angen cynnal y mesur hwn mewn lleoliad gofal iechyd. Er mwyn cadw at y mesur cadw pellter cymdeithasol, mae dal angen cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr mewn lleoliadau gofal iechyd.

Gwerthfawrogir yn llawn mor bwysig yw parhau i gefnogi lles cleifion/defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'u hanwyliaid yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cydnabyddir bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau wedi bod yn arloesol o ran dod o hyd i ffyrdd eraill o alluogi cleifion/defnyddwyr gwasanaethau i gadw mewn cysylltiad â'u perthnasau a'u ffrindiau drwy ymweliadau ar-lein gan

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddefnyddio ffonau symudol, tabledi ac ati a dylai hyn barhau lle bo modd. Mae gwerth aruthrol mewn cardiau, galwadau ffôn, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â galwadau fideo.

Felly, nod y canllawiau diwygiedig hyn yw helpu byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i gael cydbwysedd yn yr egwyddorion ymweld rhwng caniatáu ymweld â phwrpas a'r angen clir i gynnal strategaethau cadarn i atal a rheoli heintiau ar hyn o bryd yn y pandemig, er diogelwch cleifion, ymwelwyr a staff.

Mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson a byddant yn newid wrth i statws y pandemig newid.

Y canllaw o hyd yw na ddylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ddychwelyd i'r "drefn arferol" o ran ymweld.

Efallai y bydd rhai pobl angen cynorthwyrwyr cefnogi hanfodol ar gyfer cefnogaeth ychwanegol benodol e.e. dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain neu iaith dramor. Nid yw cynorthwyrwyr cefnogi hanfodol yn cael eu hystyried yn ymwelwyr yn yr ystyr draddodiadol. Mewn rhai amgylchiadau, lle mae pobl yn derbyn gofal a chymorth gan aelod o'r teulu neu bartner, gallant enwebu'r person hwn fel eu cynorthwyydd cefnogi hanfodol.

Mae'n rhaid i bob ymwelydd 11 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb mewn manau cyhoeddus dan do oni bai fod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, er enghraifft os oes gennych chi reswm iechyd neu anabledd dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb. **Darllenwch ragor o ganllawiau ar orchuddion wynebau ac eithriadau.** I'r graddau mwyaf posibl, dylai ymwelwyr hefyd gadw pellter corfforol o 2 fetr tra byddant ar safle'r ysbyty.

Gellir hwyluso ymweliadau, gyda chytundeb gan brif nyrs y ward, neu drwy drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer ymweld, fel a ganlyn; ar yr amod:

- nad oes gan yr ymwelwyr unrhyw symptomau COVID-19 ac nad ydynt yn aros am ganlyniad prawf
- nad ydynt wedi profi'n bositif am COVID-19 neu eu bod yn dal o fewn y cyfnod **hunanydsu** ac felly'n dal i wella o COVID-19

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- nad ydynt wedi cael cyfarwyddyd i hunanynysu gan **Wasanaeth Profi Orlhain Diogelu y GIG**
- nad ydynt, hyd y gwyddant, wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd â COVID-19 yn ystod y 10 diwrnod diwethaf
- nad ydynt yn byw gyda neb sydd â symptomau COVID-19 ar hyn o bryd ac sy'n aros am ganlyniad prawf, neu sydd wedi cael prawf positif ac yn hunanynysu ar hyn o bryd neu sydd wedi cael cyfarwyddyd i hunanynysu gan Wasanaeth Orlhain Profi Diogelu y GIG.
- nad ydynt wedi dychwelyd yn ystod y 10 diwrnod diwethaf o wlad dramor nad yw'n esempt, a'i bod yn ofynnol felly iddynt fod mewn cwarantin.

Mewn ardaloedd a gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID-19

Hyd at ddau o warcheidwaid / rhieni, neu ofalwyr wrth ochr y gwely ar y tro ar gyfer cleifion mewnol pediatrig a babanod newydd-anedig, ar sail penderfyniad lleol ac yn dilyn asesiad risg gan gynnwys y gallu i gadw pellter cymdeithasol.

Cleifion sydd yn nyddiau olaf eu bywyd - gall hyn fod hyd at ddau ymwelydd ar y tro am gyfnod penodol, o'r un aelwyd neu'n rhan o'r **aelwyd estynedig**. Os nad ydynt yn dod o'r un aelwyd neu ddim yn rhan o aelwyd estynedig, dylent ymweld â'r gwely ar wahân a chadw pellter y tu allan i'r ardal glinigol. Ar hyn o bryd, mae canllawiau 7 Mehefin 2021 ar gyfer aelwydydd estynedig ar gael **yma**. Bydd angen i chi edrych ar ein tudalen **Lefelau Rhybudd** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Gall cynorthwyr cefnogi hanfodol ac ymwelwyr cymorth partner gefnogi menywod mewn uned famolaeth / ysbyty yn unol â'r lefelau diffiniedig o gyfyngiadau y cynhaliwyd asesiad risg ar eu cyfer, yn unol ag atodiad 2.

Yn gyffredinol, un ymwelydd ar y tro ar gyfer claf ag anghenion iechyd meddwl, dementia, anabledd dysgu neu nam gwybyddol, lle byddai diffyg ymweliad yn achosi gofid neu fod angen ymweliad fel addasiad rhesymol er mwyn helpu gydag asesiad neu ymyriad iechyd. Fodd bynnag, dylid ystyried nifer ac amllder yr ymweliadau fesul achos unigol yng ngoleuni anghenion y claf/defnyddiwr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwasanaeth, y cynllun gofal ac mewn ymgynghoriad â'i staff cefnogi neu ei ofalwr.

Gall plant a phobl ifanc ymweld â rhiant/gwarcheidwad/gofalwr neu frawd neu chwaer mewn lleoliad gofal iechyd a dylent fod yng nghwmni un oedolyn priodol.

Pobl sydd â chyflyrau hirdymor sy'n gorfod aros am gyfnodau hirach mewn lleoliad gofal iechyd neu bobl sydd ag anghenion gofal a lles penodol y mae'r ymwelydd/gofalwr yn cyfrannu'n weithredol atynt, er enghraifft, bwydo, cefnogi anghenion cyfathrebu a chefnogi adsefydlu. Efallai y bydd iechyd a lles y cleifion hyn yn elwa o weld ymwelwyr priodol, gan fod eu cyfnod aros yn ymestyn am wythnosau lawer. Dylid cofnodi hyn yn eu cynllun gofal.

Achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau ac ardaloedd heintus posibl (ardaloedd asesu)

Rhaid i weithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau yn y meysydd hyn fod yn glir a rhaid i unrhyw ymwelwyr fod yn ymwybodol o'r peryglon a chael gwybod am y mesurau Atal a Rheoli Heintiau sydd ar waith gan gynnwys defnyddio unrhyw gyfarpar diogelu personol sydd ei angen yn ystod eu hymweliad.

Efallai y bydd cleifion COVID-19 sydd ar ddiwedd eu hoes yn cael ymwelwyr yn ystod eu dyddiau olaf, os ceir caniatâd ymlaen llaw gan nyrs y ward/y brif weinyddes nyrsio/nyrs sy'n bennaf gyfrifol. Gall hyn fod hyd at ddau ymwelydd, un ar y tro wrth ymyl y gwely am gyfnod penodol, o'r un aelwyd neu'n rhan o'r aelwyd estynedig. Ar hyn o bryd, mae canllawiau 7 Mehefin 2021 ar gyfer aelwydydd estynedig ar gael **yma**. Bydd angen i chi edrych ar ein tudalen **Lefelau Rhybudd** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Dylai **pobl sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain** neu sydd **mwyafrif o berygl o'r feirws** osgoi ymweliadau ysbyty lle bynnag y bo modd. Os bernir bod ymweliad ag ysbyty yn hanfodol, er enghraifft i ymweld ag anwyliaid yn nyddiau olaf bywyd, dylai ysbytai ddarparu masgiau meddygol. Rhaid i bob ymwelydd a ganiateir gadw at fesurau hylendid dwylo a rhagofalon rheoli heintiau wrth gyrraedd a gadael yr ardal.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Amgylchiadau eithriadol

Cydnabyddir na all canllawiau ragweld pob cais am ymweliad na rhagweld amgylchiadau pob claf. Felly, mae gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ddisgresiwn, wrth weithredu'r canllawiau, i gytuno i geisiadau nad ydynt yn cael eu hamlinellu yn unrhyw un o'r categorïau a nodir uchod lle maent yn fodlon bod manteision lles y claf neu'r ymwelydd wrth gytuno i ymweliad yn drech na'r peryglon rheoli heintiau ac unrhyw anawsterau ymarferol eraill o ran hwyluso mynediad.

Cytuno ar ymweliadau

Mae'n bwysig bod pob ymwelydd yn cael cytundeb gan brif nyrs y ward neu drwy drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer ymweld, cyn teithio i bob ymweliad. Efallai na fydd yn bosibl i ymwelwyr weld eu hanwyliaid bob dydd ac nid yw cytuno ar un ymweliad yn golygu y cytunir i ymweliadau pellach. Dylid egluro hyn wrth yr ymwelydd.

Dylai staff drin pob cais gan ymwelwyr â chydymdeimlad a thosturi ond gan sicrhau bod buddiannau gorau'r claf yn cael eu diwallu. Dylai fod yna bwrpas i ymweliad wyneb yn wyneb, hynny yw nid dim ond achlysur cymdeithasol. Ei nod yw gwella lles a helpu'r claf i wella neu fod o fudd i les ymwelydd, ee ymweliad gan berson ifanc sy'n poeni am fethu â gweld ei riant, ei warcheidwad neu ei ofalwr. Mae'n rhaid i bob ymwelydd 11 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do oni bai fod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb. Er enghraifft, os oes gennych reswm iechyd neu anabled dros beidio â gwisgo un.

Darllenwch ganllawiau pellach ar orchuddion wynebau ac eithriadau.

Os nad yw prif nyrs y ward yn siŵr, gellir cael cyngor gan y tîm Atal a Rheoli Heintiau os oes angen. Mae angen asesu risg pob ymweliad ac mae **Atodiad 1** yn rhoi rhestr wirio o gwestiynau i helpu i wneud penderfyniadau ar gyfer ymweliadau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ymweliadau awyr agored i gleifion nad ydynt, trwy wybod iddynt, wedi cael eu heintio â COVID-19

Mae tystiolaeth wyddonol yn awgrymu nad yw'r feirws yn goroesi cystal yng ngolau'r haul. Tybir felly bod y risg o drosglwyddo yn lleihau'n sylweddol yn yr awyr agored.

Os yw byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau mewn sefyllfa i allu cynnig ymweliadau awyr agored, er enghraifft ar dir neu erddi'r lleoliad gofal iechyd, dylid cynnal ymweliadau o'r fath yn unol â [chanllawiau Llywodraeth Cymru](#). Dylai ymwelwyr gadw pellter o 2 fetr oddi wrth gleifion/defnyddwyr gwasanaeth, staff ac ymwelwyr eraill bob amser.

Gall byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gynnig ymweliadau awyr agored os ydynt yn teimlo mewn rhai amgylchiadau y byddai trefniadau ymweld o'r fath yn briodol ac yn bosibl eu trefnu. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhestr wirio i helpu staff i ystyried ymweliadau.

Mynd gyda chleifion i apwyntiadau gofal iechyd wedi'u trefnu

Efallai y bydd angen i ymwelwyr fynd gyda chleifion/defnyddwyr gwasanaeth i apwyntiadau sydd wedi cael eu trefnu mewn lleoliad gofal iechyd. Gall hyn fod yn y sefyllfaoedd canlynol, ond nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol o bell ffordd:

- Unigolion sydd â phroblem iechyd meddwl, dementia, anabledd dysgu neu awtistiaeth, y byddai mynd i'r apwyntiad heb gwmni yn achosi gofid iddynt. Lle bo'n bosibl, dylid ystyried ymweliadau â defnyddwyr gwasanaeth o'r fath fesul achos unigol yng ngoleuni anghenion y claf/defnyddiwr gwasanaeth, y cynllun gofal ac mewn ymgynghoriad â'i staff cefnogi neu ei ofalwr.
- Unigolion â nam gwybyddol na fyddent o bosibl yn gallu cofio'r cyngor iechyd sy'n cael ei roi.
- Efallai y bydd angen cynorthwywyr cefnogi hanfodol ar rai pobl ar gyfer

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cymorth ychwanegol penodol e.e. dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain neu iaith dramor³. Nid yw cynorthwyyr cefnogi hanfodol yn cael eu hystyried yn ymwelwyr yn yr ystyr draddodiadol. Mewn rhai amgylchiadau, lle mae pobl yn derbyn gofal a chymorth gan aelod o'r teulu neu bartner, gallant enwebu'r person hwn fel eu cynorthwyydd cefnogi hanfodol.

- Os yw'r driniaeth/gweithdrefn yn debygol o achosi gofid i'r claf ac y gall yr ymwelydd fod o gymorth.

Dylai llythyrau apwyntiadau a gwefannau roi cyngor a manylion cyswllt i ymwelwyr ofyn am gymeradwyaeth i fynd gyda chleifion (lle bo hynny'n briodol). Gall y llythyrau gynnwys cyngor ar y canlynol:

- Yr angen i **gadw pellter cymdeithasol/corfforol** a dilyn canllawiau **hylendid dwylo** a rhagofalon rheoli heintiau wrth gyrraedd a gadael yr apwyntiad.
- Dylai **pobl sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain** neu sydd **mwya o berygl o'r feirws** osgoi ymweliadau ysbyty lle bynnag y bo modd. Os bernir bod ymweliad ag ysbyty yn hanfodol, er enghraifft i ymweld ag anwyliaid yn nyddiau olaf bywyd, dylai ysbytai ddarparu masgiau meddygol.
- Mae'n rhaid i bob ymwelydd 11 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do oni bai fod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb. Er enghraifft, os oes gennych reswm iechyd neu anabled dros beidio â gwisgo un.

Darllenwch ganllawiau pellach ar orchuddion wynebau ac eithriadau.

Mae angen asesu risg pob cais i fynd gyda chleifion ac mae **Atodiad 1** yn rhoi rhestr wirio o gwestiynau i helpu i wneud penderfyniadau ar gyfer ymweliadau. Darperir canllawiau yn **Atodiad 2** ar fynd gyda menywod beichiog i apwyntiadau cynenedigol wedi'u trefnu ymlaen llaw, a rhoddir canllawiau ar egwyddorion profion Dyfais Llif Unffordd yn Atodiad 4.

Mynd gyda chleifion i apwyntiadau gofal iechyd sydd heb eu trefnu

Efallai hefyd y bydd angen i ymwelwyr fynd gyda chleifion/defnyddwyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwasanaeth i apwyntiadau sydd heb eu trefnu, er enghraifft i Adrannau Achosion Brys. Os defnyddir ambiwlans, bydd angen i staff yr ambiwlans/adran argyfwng benderfynu yn ôl disgrisiwn a ddylai ceisiadau ystyried anghenion y claf/defnyddiwr gwasanaeth unigol a'r gefnogaeth y gall yr ymwelydd ei rhoi i'w helpu i ddeall eu triniaeth a/neu leddfu gofid.

Atodiad 1: Ystyriaethau ar gyfer ymweld â lleoliadau gofal iechyd heb COVID19

Dylai staff drin pob cais ar gyfer ymweliadau wyneb yn wyneb â chleifion â thruharedd ac empathi gan sicrhau eu bod er budd pennaf y claf. Dylai ymweliadau dan do bob amser fod drwy apwyntiad am gyfnod cyfyngedig oni bai fod y claf/defnyddiwr gwasanaeth yn nyddiau olaf ei fywyd.

Dylid ystyried a yw ymweld yn yr awyr agored yn opsiwn i'r cleifion ai peidio. Os yw'n opsiwn posibl, dylid cynnig ymweld yn yr awyr agored yn unol â [chanllawiau Llywodraeth Cymru](#).

Mae angen asesu risg pob cais a chynnig am ymweliadau a bydd yr ystyriaethau canlynol o gymorth wrth wneud penderfyniadau:

- Ydy'r claf/defnyddiwr gwasanaeth yn bodloni'r eithriadau i ymweld â chleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19?

Os nad ydynt:

- Ydy'r cais yn un am ymweliad â phwrpas? hy nid achlysur cymdeithasol ond er mwyn gwella llesiant a helpu adferiad y claf neu er budd a llesiant yr ymwelydd?
- A fyddai iechyd a llesiant y claf/defnyddiwr gwasanaeth yn elwa o weld ymwelydd priodol?
- Ydy'r claf/defnyddiwr gwasanaeth yn rhydd o COVID-19 ac wedi cael ei roi ar ward heb COVID-19?
- Beth yw sefyllfa COVID-19 yn y lleoliad gofal iechyd? Bydd angen gohirio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymweliadau os bydd nifer o achosion o'r haint neu os bydd mwy o gleifion â symptomau COVID-19 (neu haint arall) yn y lleoliad gofal iechyd.

- Ydy'r claf/defnyddiwr gwasanaeth eisoes wedi cael ymweliad wyneb yn wyneb gan berthynas arall? Yn ddelfrydol, dylai ymweliadau fod gyda phobl o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig a hynny wedi'i gyfyngu i un aelwyd/aelwyd estynedig yr wythnos. Fodd bynnag, gyda threfniadau ymweld dylid ystyried amgylchiadau unigol - er enghraifft, gall sawl plentyn hŷn fod yn byw mewn cartrefi ar wahân. Y nod yw cyfyngu nifer y cysylltiadau i'r graddau mwyaf posibl ond hefyd sicrhau bod y trefniadau ymweld yn dangos trugaredd

Ymarferoldeb a lleoliad yr ymweliad

- A wnaed darpariaeth i sicrhau bod yr holl gadeiriau a chyfarpar yn cael eu glanhau rhwng ymweliadau?
- A ellir rhoi hylif diheintio dwylo i'r ymwelydd mewn man penodol?
- Disgwylir y byddai ymwelwyr yn darparu eu gorchuddion wyneb eu hunain, ond pe bai ymwelydd yn cyrraedd heb un, dylid ystyried darparu un.
- A ellir cynnal yr ymweliad yn yr awyr agored, megis yn yr ardd
- Ydy lefelau staffio yn ddigonol ar gyfer cynnal ymweliadau awyr agored?
- Os na ellir cynnal yr ymweliad yn yr awyr agored, a oes ystafell ochr ar wahân yn y lleoliad gofal iechyd y gellir ei defnyddio?
- Sut bydd yr ymwelydd yn teithio'n ddiogel o'r maes parcio drwy'r adeilad i leoliad y claf/defnyddiwr gwasanaeth ac oddi yno?
- Ar gyfer ymweliadau awyr agored, ystyriwch sut bydd yr ymwelydd yn teithio'n ddiogel o'r maes parcio i'r lleoliad awyr agored.
- A oes digon o arwyddion i leoliad y claf/defnyddiwr gwasanaeth dan do neu yn yr awyr agored yn ogystal â nodiadau atgoffa ynglŷn â chadw pellter cymdeithasol?
- A fydd angen hebrwng yr ymwelydd i leoliad y claf/defnyddiwr gwasanaeth dan do neu yn yr awyr agored?
- A oes unrhyw ymweliadau eraill wedi'u trefnu ar yr un pryd yn yr ystafell ochr neu yn yr awyr agored?
- A oes cyfleuster ar gyfer "toiled ymwelwyr" dynodedig sydd ag arwydd clir yn agos at y lleoliad ymweld?

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Sut bydd ymwelwyr ar gyfer gwahanol gleifion/defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu rheoli i atal gormod o ymwelwyr rhag casglu mewn lleoliad ar yr un pryd.

Negeseuon hanfodol i'w cyfleu i bob ymwelydd

Atgoffwch yr ymwelydd:

- Atgoffa ymwelwyr am ddulliau eraill o gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'u hanwyliaid, er enghraifft, galwadau ffôn, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol a galwadau fideo.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol o ran eu hiechyd presennol a COVID-19. Os oes ganddynt symptomau COVID-19 dylent fod yn hunanynysu. Dylid sicrhau bod pob ymwelydd yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt aros gartref ac na chaniateir iddynt ymweld:
 - os oes ganddyn nhw'u hunain symptomau COVID-19, os ydynt yn aros am ganlyniad prawf COVID-19, os oes gofyn iddynt hunanynysu (gan gynnwys os ydynt wedi'u hadnabod fel rhywun sydd wedi bod mewn cysylltiad ag achos positif o dan Strategaeth Profi, Orlhain a Diogelu'r GIG)
 - neu, os ydynt yn byw gydag unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 (ac sydd felly'n hunanynysu), neu sydd â symptomau COVID-19, yn hunanynysu ac yn aros am ganlyniad prawf COVID-19
 - neu os ydynt wedi dychwelyd yn ystod y 10 diwrnod diwethaf o wlad dramor nad yw'n esempt, a'i bod yn ofynnol felly iddynt fod mewn cwarantîn
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall y bydd gofyn iddynt adael ar unwaith os byddant yn cyrraedd ac yn dangos unrhyw symptomau sy'n gyson â COVID-19.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall y bydd angen atal ymweliadau, o bosib, os bydd achosion o'r haint yn y lleoliad gofal iechyd neu gynnydd yn nifer y cleifion sydd â symptomau COVID-19 (neu haint arall).
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall nad yw cytundeb ar gyfer yr ymweliad hwn yn golygu y gallant weld eu hanwyliaid bob dydd. Bydd angen gofyn am gytundeb ar gyfer unrhyw ymweliadau dilynol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Sicrhau bod ymwelwyr yn ymwybodol mai eu cyfrifoldeb nhw yw gwneud eu trefniadau teithio eu hunain i'r lleoliad gofal iechyd.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall bod angen cynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr oddi wrth gleifion/defnyddwyr gwasanaeth, staff ac ymwelwyr eraill bob amser yn y lleoliad gofal iechyd neu yn yr awyr agored. Sicrhau eu bod yn deall y bydd angen iddynt wrando ar a chadw at gyngor staff ar hylendid dwylo a rhagofalon rheoli heintiau wrth gyrraedd a gadael yr ardal, a'u bod yn deall beth fyddai canlyniadau peidio â gwneud hynny.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu hannog i beidio â dod â phlentyn ifanc neu blentyn bach i'r ymweliad oherwydd yr anhawster o gadw pellter cymdeithasol.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall, os ydynt wedi bod yn gwarchod eu hunain neu os ydynt yn agored i niwed yn glinigol, y dylent osgoi ymweliadau ag ysbytai. Os bernir bod ymweliad ag ysbyty yn hanfodol, er enghraifft i ymweld ag anwyliaid yn nyddiau olaf eu bywyd, dylai ysbytai ddarparu masgiau meddygol.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall bod yn rhaid i bob ymwelydd 11 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do oni bai fod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb. Er enghraifft, os oes gennych reswm iechyd neu anabled dros beidio â gwisgo un. **Darllenwch ragor o ganllawiau ar orchuddion wyneb ac eithriadau.** Sicrhewch bod yr ymwelwyr wedi cael gwybod y dylent ddod â'u gorchudd wyneb eu hunain gyda nhw, a beth fydd canlyniad peidio â gwneud hynny (atal yr ymweliad).
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall na ddylid rhannu bwyd a diod ac nad yw'n syniad da dod â rhoddion/blodau.
- Sicrhau bod ymwelwyr â lleoliad awyr agored yn deall na chant fynd i mewn i'r lleoliad gofal iechyd oni bai eu bod yn dymuno defnyddio'r "toiled ymwelwyr" dynodedig.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn deall bod ymweliadau awyr agored yn dibynnu ar y tywydd ac y gellir eu canslo ar fyr rybudd os nad oes ardal ymweld arall ar gael.

Atodiad 2: Fframwaith i gynorthwyo Byrddau Iechyd y GIG i asesu mynediad i bartneriaid,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymwelwyr a phobl eraill sy'n rhoi cymorth i fenywod beichiog yng ngwasanaethau mamolaeth Cymru yn ystod pandemig COVID

Diben y Fframwaith hwn

Nod y fframwaith hwn yw cynorthwyo byrddau iechyd y GIG yng Nghymru i addasu'n hyblyg wrth ganiatáu mynediad i bartneriaid, ymwelwyr a phobl eraill sy'n rhoi cymorth i fenywod beichiog mewn gwasanaethau mamolaeth yn ôl cyfraddau trosglwyddo feirysol lleol. Mae'n berthnasol i leoliadau cleifion mewnol ac allanol. Nid yw'n berthnasol i fenywod sydd wedi cael prawf positif am COVID-19, ac y mae llwybr penodedig ar eu cyfer ym mhob Bwrdd Iechyd.

Cefndir

Mae'r fframwaith hwn wedi'i lywio gan y canllawiau a roddwyd i GIG Lloegr gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a'r fframwaith cyhoeddus dilynol gan GIG Lloegr (Medi 2020). Fe'i hadolygwyd i sicrhau ei fod yn gyson â'r cyngor a'r canllawiau sydd ar waith yng Nghymru gyda chymorth rhanddeiliaid allweddol o fyrdau iechyd yng Nghymru. Mae'n anodd ymweld yn ystod pandemig, a rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys menywod beichiog), staff ac ymwelwyr.

Rhaid i Fyrdau Iechyd deilwra polisiâu i'r sefyllfa leol a bod yn arloesol yn y ffordd y caiff ymweliadau eu galluogi. Mewn cyfnodau pan fo lefelau trosglwyddo COVID-19 yn uchel yn yr ardal a/neu os oes amrywiolion sy'n peri pryder yn yr ardal, dylai Byrddau Iechyd adolygu canllawiau yn ôl yr angen, gan weithio gyda Phwyllgorau Cyswllt y Gwasanaeth Mamolaeth, cynrychiolwyr staff lleol (gan gynnwys cynrychiolwyr iechyd a diogelwch), grwpiau proffesiynol eraill (e.e. sonograffwyr) yn ogystal ag arbenigwyr rheoli heintiau ac iechyd cyhoeddus priodol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Defnyddio dull sydd wedi asesu risgiau

Awgrymwn y dylai Byrddau Iechyd ddefnyddio dull lle mae risgiau wedi cael eu hasesu, yn dilyn asesiad ystyrion wedi'i ddogfennu, gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn ôl cyfraddau trosglwyddiad y feirws yn lleol, naill ai i lacio neu adfer lefelau blaenorol o gyfyngiadau.

Gellir defnyddio gwybodaeth i helpu Byrddau Iechyd i asesu risg polisïau ymweld ym mriïff **Coleg Brenhinol y Bydwragedd ar Ailgyflwyno ymwelwyr i Unedau Mamolaeth ledled y DU yn ystod pandemig COVID-19**. Mae gwybodaeth mwy cyffredinol ar gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Dylai polisïau ar ganiatáu mynediad i bartneriaid menywod, ymwelwyr neu bobl eraill sy'n rhoi cymorth gael eu hadolygu'n rheolaidd, eu teilwra i'ch cyd-destun lleol ac ystyried:

- y risg pandemig cenedlaethol bresennol a pholisi'r llywodraeth
- cyfnodau adfer y GIG
- tueddiadau lleol yn nifer yr achosion o COVID-19
- lle ffisegol yn y gwasanaeth mamolaeth, gan gynnwys mewn mannau aros ac ystafelloedd clinig;
- nifer y menywod y disgwylir iddynt fynychu sgan neu glinig cleifion allanol, a'r defnydd o ardaloedd aros sy'n cael eu rhannu â gwasanaethau eraill;
- nifer y menywod a ddisgwylir mewn uned famolaeth cleifion mewnol (e.e. ward ôl-enedigol), pellter rhwng gwelyau a chotiau yn ogystal â'r llif drwy'r ward;
- staffio'r clinig/uned mamolaeth

Lliniaru'r risg o drosglwyddo'r feirws

Er bod gwasanaethau clinigol yn ffynhonnell bosibl o drosglwyddiad feirysol rhwng defnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys menywod beichiog), staff ac ymwelwyr, gellir lliniaru'r risg hon drwy:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- ofyn i holl staff ysbyty, defnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr dros 11 oed wisgo gorchudd wyneb mewn manau cyhoeddus dan do oni bai fod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb.
- **Darllenwch ragor o ganllawiau ar orchuddion wyneb ac eithriadau**
- hwyluso hylendid dwylo da drwy gyfeirio at orsafoedd golchi dwylo neu alcohol diheintio;
- annog hylendid anadlol da drwy'r dull 'Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa, Golchwch eich dwylo' (e.e. peswch neu disian mewn i hances bapur a'i thaflu i'r bin ar unwaith) ac atgyfnerthu'r negeseuon drwy arddangos posteri;
- sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr yn unol â'r canllawiau cenedlaethol mewn lleoliadau gofal iechyd
- cyflwyno systemau un ffordd lle bo hynny'n ymarferol a bod yn rhagweithiol wrth reoli'r risg o giwiau a manau cyfyng;
- staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE), yn unol â'r canllawiau cenedlaethol;
- gweithredu ar gyngor y llywodraeth gan sicrhau, pan fydd unigolion am ddod gyda menywod i'r ysbyty neu ymweld â nhw yno:
 - nad oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19 ac yn aros am ganlyniad prawf
 - nad ydynt wedi profi'n positif am COVID-19 neu eu bod yn dal o fewn y cyfnod **hunanyngysu** ac felly'n dal i wella o COVID-19
 - nad ydynt wedi cael cyfarwyddyd i hunanyngysu gan **Wasanaeth Profi Orlhain Diogelu y GIG**
 - nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad, hyd y gwyddant, yn ystod y 10 diwrnod diwethaf â rhywun sydd â COVID-19
 - nad ydynt yn byw gyda neb sydd â symptomau COVID-19 ar hyn o bryd ac sy'n aros am ganlyniad prawf, neu sydd wedi cael prawf positif ac yn hunanyngysu ar hyn o bryd neu wedi cael cyfarwyddyd i hunanyngysu gan Wasanaeth Orlhain Profi Diogelu y GIG
 - nad ydynt wedi dychwelyd yn ystod y 10 diwrnod diwethaf o wlad dramor nad yw'n esempt, a'i bod yn ofynnol felly iddynt fod mewn cwarantîn
- argymhell, lle y bo'n bosibl, y dylai partneriaid, ymwelwyr neu bobl eraill sy'n rhoi cymorth fod o'r un aelwyd neu'n rhan o'r un **aelwyd estynedig** â'r fenyw yn ddelfrydol; Efallai y bydd cleifion COVID-19 sydd ar ddiwedd eu hoes yn cael ymwelwyr yn ystod eu dyddiau olaf, os ceir caniatâd ymlaen llaw gan nyrs y ward/y brif weinyddes nyrsio/nyrs sy'n bennaf gyfrifol. Gall hyn fod

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hyd at ddau ymwelydd, un ar y tro wrth ymyl y gwely am gyfnod penodol, o'r un aelwyd neu'n rhan o'r aelwyd estynedig. Ar hyn o bryd, mae canllawiau 7 Mehefin 2021 ar gyfer aelwydydd estynedig ar gael **yma**. Bydd angen i chi edrych ar ein tudalen **Lefelau Rhybudd** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

- gwneud yn siŵr wrth iddynt gyrraedd nad oes gan bartneriaid, ymwelwyr neu bobl eraill sy'n rhoi cymorth symptomau sy'n awgrymu haint COVID-19 neu arwyddion eraill sy'n gofyn am hunanynysu (e.e. wedi teithio dramor yn ddiweddar i rai gwledydd, cyswllt diweddar â pherson sydd wedi'i heintio - **gweler canllawiau Llywodraeth Cymru ar hunanynysu**) ac os ydyn nhw, gofyn iddynt adael y safle clinigol a dychwelyd adref ar unwaith;
- Mae profion asymptomatig Dyfais Llif Unffordd ar gael i fenywod beichiog a chymorth gan bartneriaid drwy gydol eu bechiogrwydd. Mae rhagor o fanylion ar gael gan yr uned famolaeth leol
- ar gyfer menywod sy'n cael eu derbyn i ysbyty neu ganolfan geni gymunedol, gan ofyn i'r fenyw ddewis ei chefnogaeth gan bartner ac, os oes angen, cynorthwyydd cefnogi hanfodol a all fod yn bresennol wedi iddi gael ei derbyn i'r ysbyty;
- lleihau symudiadau ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaeth o gwmpas y safle;
- peidio â chaniatáu i blant o dan 16 oed ymweld â menywod na mynd gyda nhw i apwyntiadau; mewn amgylchiadau eithriadol, gellir trafod hyn gyda'r fydwraig/person â gofal a ddylai wneud penderfyniad unigol.

Asesu cyfyngiadau partneriaid, ymwelwyr neu bobl eraill sy'n rhoi cymorth i wasanaethau mamolaeth cleifion mewnol

Dylid ystyried anghenion menywod sydd angen cymorth ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau mamolaeth ac y gallai fod angen addasiadau rhesymol arnynt. Gall hyn fod yn y sefyllfaoedd canlynol, nad ydynt yn hollgynhwysol o bell ffordd:

- Menywod sydd â phroblem iechyd meddwl, anabledd dysgu neu awtistiaeth, lle byddai peidio â chael rhywun yn dod gyda nhw yn achosi gofid iddynt.
- Menywod â nam gwybyddol na fyddent o bosibl yn gallu cofio'r cyngor iechyd sy'n cael ei roi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Lle mae'r driniaeth/gweithdrefn yn debygol o achosi gofid i'r fenyw a lle gall y partner/person enwebedig arall roi cymorth.
- Lle mae gan fenyw anghenion cyfathrebu penodol ac efallai y bydd angen cymorth arnynt i ddeall gwybodaeth.

Efallai y bydd angen cynorthwyydd cymorth hanfodol ar fenywod ag anghenion cymorth fel y rhai a restrir uchod, i fynd gyda nhw i apwyntiadau a phan fyddant yn yr ysbyty.

Asesu'r cyfyngiadau ar bartneriaid, ymwelwyr neu bobl eraill sy'n rhoi cymorth i wasanaethau mamolaeth cleifion mewnol

Dylid ystyried anghenion menywod sydd angen cymorth ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau mamolaeth ac y gallai fod angen addasiadau rhesymol arnynt. Gall hyn fod yn y sefyllfaoedd canlynol, nad ydynt yn hollgynhwysol o bell ffordd: Gall hyn fod yn y sefyllfaoedd canlynol, ond nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol o bell ffordd:

- Menywod sydd â phroblem iechyd meddwl, anabledd dysgu neu awtistiaeth, y byddai dod heb gwmni yn achosi gofid iddynt.
- Menywod â nam gwybyddol na fyddent o bosibl yn gallu cofio'r cyngor iechyd sy'n cael ei roi.
- Lle mae'r driniaeth/gweithdrefn yn debygol o achosi gofid i'r fenyw a lle gall y partner/person enwebedig arall roi cymorth.
- Lle mae gan fenyw anghenion cyfathrebu penodol ac efallai y bydd angen cymorth arni i ddeall gwybodaeth

Efallai y bydd angen cynorthwyydd cefnogi hanfodol ar fenywod ag anghenion cymorth fel y rhai a restrir uchod, i fynd gyda nhw i apwyntiadau a phan fyddant yn yr ysbyty.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Diffiniadau o bartneriaid, ymwelwyr a chynorthwywyr cymorth hanfodol

Partneriaid geni

Mae partneriaid geni yn cyfeirio at bobl a enwebwyd gan y fenyw i fod gyda hi yn ystod yr enedigaeth. Nid ydynt o reidrwydd yn bartneriaid bywyd, ond gallant fod yn bersonau cefnogol eraill fel perthnasau, ffrindiau neu doulas.

Ymwelwyr a phobl eraill sy'n rhoi cymorth

Mae ymwelwyr a phobl eraill sy'n rhoi cymorth i fenywod beichiog yn cyfeirio at bobl eraill sydd naill ai'n ymweld â menyw yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty neu ganolfan geni gymunedol, neu sy'n mynd gyda hi i apwyntiadau cleifion allanol. Gall hyn gynnwys ei phartner, perthynas, ffrind neu doula.

Cynorthwywyr cymorth hanfodol

Mae cynorthwywyr cymorth hanfodol yn cyfeirio at unigolion sydd eu hangen ar fenywod ag anghenion cymorth ychwanegol penodol, e.e. gweithiwr cymorth neu gyfieithydd. Ni ddylid categoreiddio cynorthwywyr cymorth hanfodol fel ymwelwyr yn yr ystyr draddodiadol. Mewn rhai amgylchiadau lle mae menyw fel arfer yn cael gofal a chymorth gan aelod o'r teulu neu bartner, gall enwebu'r person hwn fel ei chynorthwydd cymorth hanfodol.

Rhagwelir y bydd y lefelau risg yn cael eu pennu yn bennaf gan ddilyn lefelau risg cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, dylid cynnal asesiadau risg lleol hefyd ar gyfer unedau / gwasanaethau mamolaeth unigol. Dylid cynnal yr asesiad risg hwn ar sail aml-broffesiynol.

Gall cynorthwywyr cymorth hanfodol, partneriaid geni ac ymwelwyr gefnogi menywod mewn uned famolaeth / ysbyty o fewn y lefelau cyfyngiadau diffiniedig

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hyn o asesiadau risg

Asesu cyfyngiadau partneriaid, ymwelwyr neu bobl eraill sy'n rhoi cymorth i wasanaethau mamolaeth cleifion mewnno

Lefel Risg	Lleoliadau Esgor a Geni	Lleoliadau Cleifion Mewnol cynenedigol neu ôlenedigol	Cleifion Allanol Mamolaeth	Apwyntiadau Uwchsain
Uchel lawn	Cynorthwy-ydd cymorth A / NEU un partner geni yn ystod y cam esgor gweithredo	Menywod i fynychu apwyntiadau ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, mae cynorthwywyr cymorth hanfodol yn gallu mynychu i ddarparu cymorth penodol. Gall un oedolyn enwebedig fynd gyda'r fenyw pan fo angen cymorth cyfarwydd arni ar gyfer ymgynghoriadau a allai achosi gofid iddi.	Menywod i fynychu apwyntiadau ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, mae cynorthwywyr cymorth hanfodol yn gallu mynychu i ddarparu cymorth penodol. Gall un oedolyn enwebedig fynd gyda'r fenyw pan fo angen cymorth cyfarwydd arni ar gyfer ymgynghoriadau a allai achosi gofid iddi.	Pob sgan: Menywod i fynychu sganiau ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, mae cynorthwywyr cymorth hanfodol yn gallu mynychu i ddarparu cymorth penodol. Gall un oedolyn enwebedig fynd gyda'r fenyw pan fo angen cymorth cyfarwydd arni ar gyfer ymgynghoriadau a allai achosi gofid iddi.
Uchel	Cynorthwy-ydd cymorth A / NEU un partner geni yn ystod y	Menywod i fynychu apwyntiadau ar eu pennau eu hunain. Fodd	Menywod i fynychu apwyntiadau ar eu pennau eu hunain. Fodd	Sganiau penodedig: Un oedolyn enwebedig i fynd gyda'r fenyw i'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cam esgor gweithredol.	bynnag, mae cynorthwywyr cymorth hanfodol yn gallu mynychu i ddarparu cymorth penodol.	bynnag, mae cynorthwywyr cymorth hanfodol yn gallu mynychu i ddarparu cymorth penodol.	apwyntiadau a nodir isod (1) lle gellir cadw pellter cymdeithasol
	Gall un oedolyn enwebedig fynd gyda'r fenyw pan fo angen cymorth cyfarwydd arni ar gyfer ymgynghoriadau a allai achosi gofid iddi.	Gall un oedolyn enwebedig fynd gyda'r fenyw pan fo angen cymorth cyfarwydd arni ar gyfer ymgynghoriadau a allai achosi gofid iddi.	Pob sgan arall: Fel lefel risg uchel iawn

Canolig	Cynorthwywyr cymorth A / NEU un partner geni ym mhob cam o'r esgor os gellir glynu wrth y canllawiau cenedlaethol ar gadw pellter cymdeithasol yn y lleoliad lleol	Cynorthwywyr cymorth A / NEU hyd at un ymwelydd dynodedig /enwebedig os gellir glynu wrth y canllawiau cenedlaethol ar gadw pellter cymdeithasol yn y lleoliad lleol	Cynorthwywyr cymorth A / NEU hyd at un ymwelydd dynodedig /enwebedig os gellir glynu wrth y canllawiau cenedlaethol ar gadw pellter cymdeithasol yn y lleoliad lleol	Sganiau penodedig: Un oedolyn enwebedig i fynd gyda'r fenyw i'r apwyntiadau a nodir isod* lle gellir cadw pellter cymdeithasol Pob sgan arall: Fel lefel risg uchel iawn
---------	---	---	---	--

Isef	Ailgyflwyno polisïau geni arferol yn raddol, os yw'n wahanol i lefel risg ganolig.	Ailgyflwyno polisïau ymweld arferol yn raddol, os yw'n wahanol i lefel risg ganolig	Ailgyflwyno polisïau ymweld arferol yn raddol, os yw'n wahanol i lefel risg ganolig.	Ailgyflwyno polisïau ymweld arferol yn raddol, os yw'n wahanol i lefel risg ganoli.
------	--	---	--	---

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ystyriaethau wrth drefnu cyfleoedd i ymweld â chleifion mewnol

Mae cyfyngu ar yr amser a ganiateir ar gyfer un ymweliad, sy'n cynnig sesiynau ymweld yn y bore neu'r prynhawn ar gyfer gwelyau cyfagos, neu weithredu system cadw amser penodol ar gyfer ymweliadau yn rhai dulliau a fydd yn sicrhau bod ymwelwyr yn cadw pellter cymdeithasol.

Efallai y bydd angen i chi deilwra eich dull gweithredu ar draws gwasanaethau os oes gan un adran o'r gwasanaeth (e.e. unedau geni) ddigon o le corfforol ond nad oes gan rannau eraill (e.e. wardiau ôl-enedigol).

Cynghorir Byrddau Iechyd y GIG hefyd i gadw rhestr o fenywod sy'n mynychu pob clinig / lleoliad gofal iechyd fel y gellir cysylltu â nhw i roi manylion unrhyw un sydd wedi dod gyda nhw a darparu eu henwau a'u manylion cyswllt, i gynorthwyo timau **Profi, Olrhain, Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru** os bydd angen olrhain cysylltiadau

Mae canllawiau enghreifftiol ar gyfer y rheini sy'n ymweld â gwasanaethau cleifion mewnol ar gael ym mriiff **Coleg Brenhinol y Bydwragedd ar Ailgyflwyno ymwelwyr ag Unedau Mamolaeth ledled y DU yn ystod y pandemig COVID-19**.

Asesu cyfyngiadau ar gyfer pobl sy'n rhoi cymorth i fenywod beichiog mewn gwasanaethau mamolaeth cleifion allanol

Rydym yn argymhell dull tebyg o asesu cyfyngiadau ar gyfer oedolion sy'n mynd gyda'r fenyw, gan gynnwys partneriaid geni wedi'u trefnu, i wasanaethau mamolaeth cleifion allanol ac apwyntiadau uwchsain.

Mae'r mesurau i liniaru'r risg o drosglwyddo'r feirws hefyd yn berthnasol i oedolion sy'n mynd gyda menywod i wasanaethau cleifion allanol mamolaeth mewn lleoliadau cymunedol ac ysbytai.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Dylid annog menywod i fynd i'w hapwyntiad yn brydlon ac i aros y tu allan i'r ysbyty os byddant yn cyrraedd yn gynnar.

Os nad yw'n ymarferol i bartneriaid neu unigolion eraill fod gyda'r fenyw yn yr ardal aros, ystyriwch a yw'n ymarferol iddynt aros y tu allan i'r ysbyty/clinig (neu yn eu car). Gellir eu galw i'r ardal glinigol pan fydd y clinigydd yn barod i ddechrau'r apwyntiad. Ystyriwch a yw'n dderbyniol i'r oedolion sy'n mynd gyda'r fenyw fynd mewn i'r ystafell yn hwyrach na'r fenyw, neu a yw'n bosibl trefnu gwasanaethau mewn ffordd sy'n galluogi hyn (gan gynnwys effaith bosibl ar hyd yr apwyntiad), ac a fydd hyn yn arwain at orlenwi ac atal pobl rhag gallu cadw pellter cymdeithasol yn yr ardaloedd aros allanol.

Oedi neu wrthdroi ailgyflwyno ymwelwyr â gwasanaethau mamolaeth

Gellir gwarantu oedi wrth ailgyflwyno ymwelwyr, neu droi'n ôl at gyfyngiadau llymach, mewn ymateb i'r risg leol neu genedlaethol o drosglwyddo'r feirws, neu os oedd cynnydd diweddar yn nifer yr ymwelwyr yn anniogel.

Dylai'r broses o wneud penderfyniadau i oedi neu wrthdroi gael ei chofnodi'n glir. Trafodwch eich rhesymau gyda Phwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth lleol a chynrychiolwyr ar ochr staff. Ystyriwch rannu'r rheswm pam eich bod wedi gwneud y penderfyniad, er mwyn helpu i roi sicrwydd i fenywod ac ymwelwyr bod y tîm arwain wedi ystyried pob dull ac addasiad rhesymol ond bod yr arfer yn anniogel.

Hysbysu Llywodraeth Cymru

Dylai Byrddau Iechyd hysbysu Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio yn union cyn newid eu dull o ymdrin â mynediad i ymwelwyr gwasanaethau mamolaeth. Anfonwch e-bost i OCNOMailbox@llyw.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Atodiad 3: Ystyriaethau ar gyfer ymweld â hosbisau nad ydynt yn leoliadau COVID-19

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd ag Atodiad 1 uchod: Ystyriaethau ar gyfer ymweld â hosbisau nad ydynt yn leoliadau COVID-19.

Mae hosbisau'n gosod gofal i deuluoedd a gofalwyr wrth galon gofal lliniarol da. Mae gallu rhannu amser gyda ffrindiau a theulu ar ddiwedd oes yn cyfrannu, nid yn unig at les y claf, ond hefyd ei anwyliaid. Dylai pob cais am ymweliad gael ei drin â sensitifrwydd a dealltwriaeth a dylid eu caniatáu lle bo modd, yn enwedig yn ystod dyddiau olaf bywyd.

Gan fod pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar nifer o bobl, mae hosbisau'n gorfod gwneud pethau ychydig yn wahanol.

Mae hosbisau am roi cyfle, lle bo modd, i deuluoedd ac anwyliaid ymweld â chleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID-19 ac eraill sy'n derbyn gofal diwedd oes. Er mwyn gwneud hyn, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn atal ac yn rheoli heintiau drwy wneud asesiad risg manwl a chynllunio'n ofalus, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch cleifion, ymwelwyr a staff. Bydd angen i hosbisau barhau i gyfyngu ar nifer yr ymwelwyr os yw hynny'n angenrheidiol, er mwyn cydymffurfio â mesurau **cadw pellter cymdeithasol**.

Lle bo hynny'n berthnasol, mae canllawiau diwygiedig ar ymweliadau ysbyty yn ystod pandemig y coronafeirws (mewn grym ers 30 Tachwedd), hefyd yn berthnasol i hosbisau. Pan fydd cleifion yn nyddiau olaf eu bywyd, mae'r canllawiau'n nodi y gellir caniatáu hyd at ddau ymwelydd ar y tro am gyfnod penodol, os ydynt o'r un aelwyd neu'n rhan o **aelwyd estynedig**. Os nad ydynt yn dod o'r un aelwyd neu'n rhan o aelwyd estynedig, dylent ymweld â gwely'r claf ar wahân a chadw pellter y tu allan i'r ardal glinigol.

Dylid ceisio cytundeb gan reolwr yr Hosbis cyn unrhyw ymweliad.

- Anogir a chefnogir ymweliadau rhithiol lle bo modd, ond yn achos ymweliadau wyneb yn wyneb, mae angen cytuno ar hyn ymlaen llaw a gellir

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cynnig ymweliadau awyr agored os yw'n briodol. Dylai hosbisau ystyried sefyllfaoedd lleol, gan gynnwys statws achosion COVID-19 a strwythur unigryw pob hosbis.

- Yn achos ymweliadau gan gleifion mewnol yn yr hosbis, bydd angen gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), yn unol â'r rheoliadau ar gyfer lleoliadau gofal iechyd, felly dim ond pan fydd pobl yn gallu dilyn y canllawiau y gallant ganiatáu ymweliadau. Bydd cymorth ar gael i gynorthwyo ymwelwyr.
- Dylid cydbwysu risg yn erbyn:
 - o manteision cael ymwelwyr i les unigolyn
 - y niwed a brofir gan glaf neu gan ymwelydd o beidio ag ymweld, yn enwedig i bobl yn oriau neu ddyddiau olaf eu bywyd
 - y darpariaethau a'r anghenion a amlinellir yng nghynllun gofal unigolyn
- Mae gan hosbisau ddisgresiwn i ddiwallu anghenion unigol cleifion ac i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu, ar adeg pan fydd presenoldeb teulu neu ffrindiau yn arbennig o bwysig.
- Rhaid i'r dull unigoledig a hyblyg hwn ystyried dymuniadau claf, agosrwydd at farwolaeth, hawliau, anghenion teuluol ac unrhyw anghenion diwylliannol neu grefyddol. Dylai cleifion fod yn rhan o'r penderfyniad hwn cymaint â phosibl. Dylid cofnodi'r trafodaethau hyn yn nodiadau'r claf fel bod cofnod ysgrifenedig.
- Gall hosbisau gymhwyso rheolau gwahanol ar gyfer gwahanol gleifion, yn enwedig ar gyfer pobl yn oriau neu ddyddiau olaf eu bywyd. Dylid cynllunio ymlaen llaw mewn achosion lle bo hynny'n bosibl. Dylid rhannu gwybodaeth a phenderfyniadau'n gyflym â chleifion, teuluoedd a staff.
- Dylid amlinellu'r dull o wneud penderfyniadau ar ymweld, gan gynnwys ffactorau a ystyrir ar gyfer penderfyniad a'r broses o wneud penderfyniadau, mewn polisi ymweld, a ddsberthir i gleifion a theuluoedd.
- Ar gyfer hosbisau ag Uned Cleifion Mewnol, mae'n bwysig rhoi eglurder a chael consensws gyda thîm yr Uned ar ei pholisi ymweld.
- Argymhellir bod hosbisau'n trefnu o flaen llaw ac yn cofnodi ymweliadau, gan osgoi ymweliadau ad hoc lle bo hynny'n bosibl.
- Gall cefnogi plant i ymweld â'u hanwyliaid fod yn rhan allweddol o'r broses o'u cefnogi i ddelio â phrofedigaeth.
- Os ceir nifer o achosion mewn hosbis a/neu dystiolaeth bod nifer o achosion mewn man penodol yn y gymuned, gall hosbisau osod cyfyngiadau ymweld yn gyflym i amddiffyn cleifion, staff ac ymwelwyr. Yn y sefyllfa hon, dylai

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hosbisau nodi opsiynau amgen i gynnal cyswllt cymdeithasol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd.

- Mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson a byddant yn newid wrth i statws y pandemig newid.

Atodiad 4: Egwyddorion i sefydliadau eu hystyried o ran ymweld ag ysbytai

Mae'r canllawiau yn awgrymu 'y dylai Byrddau Iechyd ddefnyddio dull lle mae risgiau wedi cael eu hasesu, yn dilyn asesiad ystyrion wedi'i ddogfennu, gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn ôl cyfraddau trosglwyddiad y feirws yn lleol, naill ai i lacio neu adfer graddau blaenorol o gyfyngiadau.'

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y gall ymweliadau ar gyfer unigolion gael eu hasesu a'u hwyluso gan y rheolwr ward perthnasol fesul achos o fewn y fframwaith.

Er bod pwysigrwydd ymweliadau i gynnal llesiant unigolion, yn enwedig y rheini sydd â phroblem iechyd meddwl, dementia, anabledd dysgu neu salwch cronig yn cael ei ddeall a'i dderbyn, rhaid cofio bod cyfran fawr o drosglwyddiadau COVID-19 mewn ysbytai wedi bod yn ddigyswllt ac wedi digwydd pan fo'r gyfradd drosglwyddo yn y gymuned yn uchel.

Cydnabyddir felly y bydd angen i Fyrddau Iechyd deilwra protocolau ar gyfer ymweld ag ysbytai a lleoliadau gofal penodol yn ôl newidynnau lleol, fel cyfradd trosglwyddo'r gymuned a bodolaeth Amrywiadau o Bryder (VoC) trosglwyddadwy iawn.

Mae'r atodiad hwn yn nodi rhai egwyddorion i sefydliadau eu hystyried er mwyn helpu i wneud penderfyniadau fel rhan o'r dull hwn o asesu risg o fewn fframwaith cenedlaethol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Hierarchiaeth mesurau rheoli

Y brif ystyriaeth i Fyrddau Iechyd wrth atal haint COVID-19 rhag cyrraedd safleoedd ysbytai bob amser yw gweithredu a chynnal a chadw 'Hierarchiaeth mesurau rheoli', sef yn nhrefn eu blaenoriaeth - dileu, amnewid, mesurau rheoli trefniadol, mesurau rheoli gweinyddol a chyfarpar diogelu personol (PPE).

Felly, dylai Byrddau Iechyd weithio i ddatblygu systemau dibynadwy ar gyfer eithrio unigolion â symptomau a sicrhau bod addasiadau ac arwyddion amgylcheddol ar waith er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol a rheoli'r risg o giwiau a manau cyfyng.

Dylai fod digon o orsafoedd golchi dwylo a chynnyrch diheintio dwylo i sicrhau digon o gyfleoedd hylendid dwylo ac anadlol ac, os oes angen, darparu gorchuddion wyneb a chyfarpar diogelu personol priodol.

Canllawiau brechu cleifion

Mae tystiolaeth gynyddol o effeithiolrwydd y rhaglen frechu o ran atal pobl rhag mynd i'r ysbyty a chleifion yn marw o COVID-19. Mae'r broses o frechu pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed yn glinigol yn mynd rhagddi'n dda ac mae data a gyflwynwyd ar gronfa ddata Tablau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 8 Mehefin 2021 yn dangos bod 95.4% o Weithwyr Gofal Iechyd hefyd wedi cael o leiaf y dos cyntaf o'r brechlyn.

Ar 3 Mawrth 2021, fe wnaeth llythyr ar y cyd gan y Prif Swyddog Meddygol/Prif Swyddog Nyrsio, 'Ystyried brechu cleifion mewn carfanau blaenoriaeth cymwys yn ystod neu o gwmpas y cyfnod y cânt eu derbyn i'r ysbyty, ac ar gyfer cleifion allanol', argymhell brechu cleifion dewisol, brys a chleifion ysbytai sy'n cael eu derbyn mewn carfanau cymwys. Bydd y rhan fwyaf o'r carfannau hyn wedi cael y ddau ddos erbyn hyn.

Roedd y llythyr yn rhoi enghreifftiau o sut y gofynnwyd i Fyrddau Iechyd roi trefniadau ar waith i wella'r broses o gyflwyno rhaglen brechu COVID-19, gan gynnwys:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

1. Cynnig o leiaf un brechiad COVID, lle bo hynny'n ymarferol, i dderbyniadau dewisol sydd yn y carfannau cymwys, a gorau oll os yw hynny'n fwy na phythefnos cyn eu derbyn.
2. Cynnig brechiad COVID i dderbyniadau brys sy'n profi'n negatif adeg eu derbyn ac sydd yn y carfannau cymwys sy'n cael cynnig brechiad ar hyn o bryd, os ydynt yn cael eu hystyried yn addas yn glinigol/ffit ar gyfer brechu.
3. Cynnig brechiad COVID-19 i gleifion mewnol presennol sydd yn y grwpiau blaenoriaeth sy'n cael eu himiwneiddio, lle bo hynny'n ymarferol.
4. Ar gyfer y rheini sydd wedi cael y dos cyntaf o'r brechlyn, a allai fod wedi ei gael yn y gymuned neu yn yr ysbyty, os ydynt i fod i gael eu hail ddos tra byddant yn yr ysbyty, mae angen hwyluso hyn os tybir eu bod yn addas yn glinigol/ffit i gael eu brechu.

Ystyriaethau wrth ddefnyddio profion

Mae profion yn cael eu defnyddio i sgrinio ymwelwyr â lleoliadau caeedig eraill gyda phreswylwyr agored i niwed, ac felly gellir eu hystyried ar gyfer ysbytai.

Mae dwy fantais ymddangosiadol o gyflwyno profion ar gyfer ymwelwyr ag ysbytai:

- gwahardd ymwelwyr heintus os yw'r prawf yn bositif
- darparu sicrwydd os yw'r prawf yn negyddol

Mae modd defnyddio amrywiaeth o dechnolegau profi gwahanol, gan gynnwys dyfeisiau llif unffordd a dyfeisiau pwynt gofal. Mae gan bob un o'r rhain nodweddion a chostau gwahanol.

Wrth wneud penderfyniadau am brofi yn y gyfres o fesurau i hyrwyddo ymweliadau mwy diogel ag ysbytai, mae'n bwysig bod Byrddau Iechyd yn deall y cyd-destun y bydd y profion yn digwydd. Wrth ystyried y dyfeisiau llif unffordd:

- Ar gyfer yr wythnos rhwng 23 a 29 Mai 2021, mae'r **arolwg o haint COVID-19** yn amcangyfrif bod cyfraddau heintio COVID-19 yng Nghymru tuag **1 unigolyn mewn 1,050** (cyfwng credadwy o 95%: 1 mewn 2,910 i 1 mewn 520), neu amcangyfrif o 2,900 o bobl yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Deallir erbyn hyn y bydd y mwyafrif helaeth o brofion Dyfeisiau Llif Unffordd cadarnhaol yn ganlyniadau anghywir, yn ystod y cyfnod hwn o niferoedd isel. Byddai hyn yn golygu y byddai'r posibilrwydd o unigolyn sy'n cael canlyniad positif gyda Dyfais Llif Unffordd yn llai na 5% yn heintus mewn gwirionedd. Mae'n debygol o fod yn llai dibynadwy pan fydd y prawf yn cael ei hunanweinyddu heb oruchwyliaeth.
- Pan fydd lefel isel o achosion, mae'n debygol iawn y bydd unigolion gyda chanlyniadau positif o Ddyfais Llif Unffordd yn cael eu gwahardd rhag ymweld, gyda chanlyniadau a all beri gofid a niwed pan fo'r person roeddent yn bwriadu ei weld yn ddifrifol wael neu ar ddiwedd ei oes. Hefyd, gwrthodir rheini nad ydynt yn sefyll prawf rhag ymweld.
- Mae dibynadwyedd prawf positif yn cynyddu wrth i nifer yr achosion cymunedol gynyddu, gan awgrymu rôl fwy defnyddiol ar gyfer profion Dyfais Llif Unffordd os yw cyfraddau cymunedol yn uchel.
- Dylid nodi hefyd nad yw Dyfeisiau Llif Unffordd yn 100% sensitif, felly efallai y byddant yn colli tua 30% o'r rheini sy'n wirioneddol heintus. Mae hyn yn gyfiawnhad pellach dros barhau â'r mesurau eraill yn yr hierarchaeth mesurau rheoli.
- Cydnabyddir y bydd amgylchiadau pan gredir bod asesiad risg lleol yn awgrymu bod profion Dyfeisiau Llif Unffordd yn fanteisiol i ymwelwyr, efallai ar gyfer carfanau cleifion y cyfaddawdir ar eu himiwnedd.

Mae'r canllawiau diweddaraf '**Ymweliadau â chartrefi gofal: canllawiau i ddarparwyr**' (a ddiweddarwyd 6 Awst 2021) yn cynghori y dylai pob ymwelydd gofal dan do gael ei brofi, drwy brofion dan oruchwyliaeth, cyn mynd i mewn. Mae'r ddogfen ganllaw ar gartrefi gofal hefyd yn glir wrth nodi 'Y disgwyliad yw y bydd ymweliadau sy'n cael eu hasesu ar gyfer risg, gan gynnwys ymweliadau dan do, yn cael eu cefnogi' ac y dylai'r pwyslais fod ar 'sut' yn hytrach nag 'a ddylid' cynnal ymweliadau ai peidio.

Mewn cymhariaeth, mae'r ddogfen 'Ymweliadau ag Ysbytai yn ystod y coronafeirws: canllawiau' (Tachwedd 2020) yn aml yn ategu 'y dylai ymweliadau fod â phwrpas clir a dylid cytuno ar ymweliadau, er lles pennaf y claf/defnyddiwr gwasanaeth neu les yr ymwelydd.'

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac wrth i ymweliadau â'r ysbytai beidio â bod yn 'ymweliad â phwrpas' yn unig, efallai y bydd Byrddau Iechyd yn ystyried a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

oes angen rhoi profion Dyfais Llif Unffordd neu Bwynt Gofal, wedi'u hategu gan brofion Adweithiau Cadwyn Polymeras Rt-PCR mewn labordy, i gadarnhau'r canlyniadau positif, yn ogystal â'r 'Hierarchiaeth Mesurau Rheoli er mwyn helpu i ddechrau ymweliadau mwy rheolaidd â'r ysbyty.

Y prif opsiynau y gallai Byrddau Iechyd eu gweithredu i ddefnyddio profion os ydynt yn gwneud hynny'n ofyniad yw:

- profion dan oruchwyliaeth yn y fan a'r lle ar safle'r ysbyty
- hunan-brawf gartref

Mae ystyriaethau ymarferol wrth ddewis y cyfrwng mwyaf priodol:

- Ar gyfer profion dan oruchwyliaeth yn y fan a'r lle: A oes gan ysbytai staff a chpasiti'r ystâd i sicrhau bod pob ymwelydd yn cael profion dan oruchwyliaeth ar yr un diwrnod â'r ymweliad, ac i ddarparu digon o le i gadw pellter cymdeithasol wrth aros am ganlyniadau?
- Ar gyfer hunan-brawf gartref cyn ymweld: mae cwestiynau am gywirdeb profion heb eu goruchwyllo wedi cael eu codi, bydd Byrddau Iechyd hefyd eisiau ystyried dilysu'r broses a'r gallu i gofnodi canlyniadau pob prawf. Yn ddelfrydol, dylai ymwelwyr fod yn cymryd rhan mewn profion rheolaidd a byddant wedi cael o leiaf dau brawf negyddol cyn ymweld. Bydd angen arweiniad clir ar ymwelwyr hefyd ynghylch sut a ble y gallant gael gafael ar Ddyfeisiau Llif Unffordd.

Mae costau ariannol ac ecolegol mawr o bosibl yn gysylltiedig â chyflwyno profion pellach yn eang, a dylid ystyried y rhain.

Rhieni a phartneriaid

Mae'r canllawiau ymweld ag ysbytai yn cydnabod amgylchiadau arbennig partneriaid menywod yn y gwasanaethau mamolaeth wrth fynd i apwyntiadau beichiogrwydd a derbyniadau cleifion mewnol, ac mae'n caniatáu hyd at ddau riant, gwarcheidwad neu ofalwr wrth ochr y gwely ar y tro ar gyfer cleifion mewnol pediatrig a babanod newydd-anedig, yn amodol ar benderfyniadau lleol, ac yn dilyn asesiad risg, yn cynnwys y gallu i gadw pellter cymdeithasol. Mae

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

egwyddor asesu risg lleol yn dal i fod yn berthnasol fel yr amlinellir, ond cydnabyddir y gallai fod rôl ddefnyddiol ar gyfer profion Dyfais Llif Unffordd rheolaidd i hwyluso mynediad i gymorth partneriaid / rhieni drwy gydol beichiogrwydd / genedigaeth / ar ôl geni ac wrth ddarparu cymorth i blant. Gallai fod cyfleoedd hefyd i ddefnyddio dyfeisiau Pwynt Gofal i brofi rhieni a phartneriaid.

Mae rhieni plant mewn ysbytai a menywod beichiog a'u partner cymorth dynodedig yn y gwasanaethau mamolaeth nawr yn gallu cael gafael ar becynnau prawf Dyfais Llif Unffordd drwy gasglu pecynnau profi o'u **man casglu cymunedol** agosaf neu drwy **archebu pecynnau profi yn uniongyrchol i'w cartref**.

Casgliad

Gweithredu'r hierarchiaeth mesurau rheoli yw'r brif ffordd o hyd o atal COVID-19 rhag cyrraedd ysbyty a lledaenu ynddo. Rhaid adolygu a gwerthuso protocolau a gweithdrefnau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, glanhau amgylcheddol ac IPC, gan gynnwys hylendid dwylo rheolaidd a thrylwyr gan ymwelwyr a gwisgo gorchuddion wyneb a chyfarpar diogelu personol, lle bo hynny'n briodol.

Dylai Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ystyried sut y gellir brechu cleifion brys, dewisol a mewdol i wella diogelwch ymweliadau ag ysbytai, ac a yw'r budd yn drech na'r anfantais.

Rhaid ystyried rôl profi ymwelwyr fel rhan o ddull asesu risg yng nghyd-destun y gyfradd drosglwyddo gymunedol bresennol, presenoldeb lleol Amrywiadau o Bryder, bregusrwydd grwpiau cleifion penodol ac amgylchiadau a phwrpas yr ymweliad.

Troednodiadau

(1) sgan uned asesu beichiogrwydd cynnar (EPAU) / sgan dyddio beichiogrwydd cynnar (11 wythnos + 2 ddiwrnod i 14 wythnos + 1 diwrnod) / sgan anomaledd y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ffetws (18 i 20 wythnos + 6 diwrnod) / presenoldeb yn yr Adran Meddygaeth y Ffetws

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Ymweld ag ysbytai yn ystod y coronafeirws: canllawiau](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).